**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar y Contract ar gyfer darparu gwasanaeth Meddygon Teulu tu allan i oriau arferol yng Nghaerdydd.**

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad. Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymatebion canlynol i'r pum argymhelliad yn yr adroddiad.

**1** ***Argymhelliad***

Yr ydym yn argymell y dylai cyrff y sector cyhoeddus:

- Pan fo’n briodol, a chan fod yn ofalus i gadw tegwch, wneud contract cyn-tendro gyda’r farchnad er mwyn trafod a gwneud yn eglur y fanyleb, yn arbennig os yw’n gymhleth neu’n anarferol;
- Cynnig cyfleoedd i fidwyr posibl i drafod unrhyw amwysedd posibl ynglŷn â dehongli manyleb y gwasanaeth cyn bod tendrau’n cael eu cyflwyno; ac
- yn cynnwys geirfa ym manyleb eu gwasanaethau sy’n diffinio unrhyw dermau a allai fod yn annelwig.

***Derbynnir*** *Mae'r Llywodraeth Cynulliad Cymruwedi cyhoeddi dau Gylchlythyr Iechyd Cymru, WHC(2005)083 a WHC (2006)025, sy'n cyfeirio'n benodol at y materion a godir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yn fwyaf penodol y pwyntiau penodol a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio hwn. Mae'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu datblygu a bydd yr argymhellion hyn yn cael eu cwmpasu'n llawn yn y dogfennau diwygiedig. Disgwylir y bydd y rhain yn cael eu cwblhau o fewn y 3 mis nesaf ar ôl adolygu'r rheoliadau perthnasol.*

**2** ***Argymhelliad***

Yr ydym yn argymell fod cyrff y sector gyhoeddus yn cadarnhau fod canolwyr mewn sefyllfa i wneud sylwadau gydag awdurdod ar allu’r cwmni i ddarparu gwasanaethau y mae’n tendro amdanynt, nad oes gwrthdaro buddiannau o gwbl gan ganolwyr a bod pob geirda yn cael ei gofnodi a’i gadw.

***Derbynnir*** *Yr ydym yn ystyried bod hyn yn arfer dda ac rydym wedi atgoffa cyrff y GIG am eu cyfrifoldebau drwy'r cylchlythyrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod sylw'r holl gyrff cyhoeddus eraill yn cael eu tynnu at yr adroddiad, yn enwedig yr argymhelliad hwn.*

**3** ***Argymhelliad***

Yr ydym yn argymell fod Byrddau Iechyd Lleol, wrth arfer eu dyletswydd i gymhwyso safonau doethineb masnachol, yn cael eu cyfarwyddo gan ganllawiau’r Trysorlys a Swyddfa Masnach y Llywodraeth ar y gwiriadau ariannol sydd angen eu gwneud ar gwmnïau sy’n bidio am gontractau, gyda phwyslais arbennig ar yr angen i wirio fod gan gwmnïau newydd y gallu ariannol i gyflwyno’r gwasanaeth yn ddigonol.

***Derbynnir*** *Cyfeiriwyd at y mater hwn yng nghylchlythyr DGM(95)65 a chafodd ei ategu yn WHC (2005)083 ac yn fwy diweddar yn WHC(2006)025. Tynnwyd sylw'r sefydliadau at y canllawiau uchod yn y cylchlythyrau.*

4 ***Argymhelliad***

Yr ydym yn argymell, wrth roi contractau am wasanaethau i gleifion i gyflenwyr newydd, y dylai Byrddau Iechyd Lleol ddatblygu cynlluniau rheoli risg a chynlluniau argyfwng wrth gefn sy’n gymesur â’r peryglon yn achos methiant yn y gwasanaeth neu fethiant ariannol.

***Derbynnir.*** *Yr ydym yn ystyried bod hwn yn rhan o'r broses o gontractio da. Dylai sefydliadau asesu ffactorau ariannol, clinigol a gwasanaethau ehangach fel rhan o'u cynlluniau. Cafodd y cyngor hwn ei gynnwys hefyd yn y canllawiau a gyhoeddodd y Cynulliad i gynorthwyo'r Byrddau Iechyd Lleol i fynd i'r afael â'r newidiadau sy'n codi wrth i Feddygon Teulu optio allan o'r cyfrifoldebau i wasanaethu y tu allan i oriau arferol. Atgoffwyd y sefydliadau am eu cyfrifoldebau yng nghylchlythyrau WHC (2005)083 a WHC (2006)025.*

5 ***Argymhelliad***

Yr ydym yn argymell ble mae cyrff y sector gyhoeddus yn penderfynu rhoi arian ychwanegol i gontractwyr oddi allan i delerau’r contract, y dylent:

- Asesu’n drylwyr y dystiolaeth fod amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau’r arian; ac yn
- cofnodi’n gyflawn y sail i’w penderfyniad.

***Derbynnir*** *Yr ydym yn ystyried bod hwn yn rhan o'r broses o gontractio da. Disgwylir bod gan bob sefydliad ddulliau cadarn yn eu lle i fonitro contractau ac i gytuno ar gamau sy'n codi o'r broses hon. Atgoffwyd y sefydliadau am eu cyfrifoldebau yng nghylchlythyrau WHC (2005)083 a WHC (2006)025.*